



Y Blynyddoedd Cynnar



**Sut caiff Anghenion
Addysgol Arbennig fy
mhlentyn eu diwallu
mewn cylch chwarae
neu feithrinfa?**

Rhaid i'r holl sefydliadau cyn-ysgol a meithrinfeydd sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus roi ystyriaeth i'r 'Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig' sy'n cynnig arweiniad ymarferol ar nodi ac ateb anghenion ychwanegol, 'gam wrth gam' gydag ymateb graddedig.

“Rwy’n gofidio’n ofnadwy ac mae’r feithrinfa’n gofidio am gynnydd fy mhlentyn. Beth fydd yn digwydd nesaf?”

Mae pob plentyn yn wahanol. Y peth cyntaf i’w wneud yw trefnu cyfarfod gyda’r sefydliad Blynyddoedd Cynnar i drafod gofidion a dod o hyd i’r ffyrdd gorau o gefnogi eich plentyn. Gallai’r feithrinfa gysylltu â’r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbenig a gyda’ch gilydd, gallech benderfynu bod angen cefnogaeth ychwanegol ar eich plentyn.

“Beth yw Cydlynnydd AAA?”

Mae’r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig yn cynnig cyngor a chefnogaeth i aelodau staff a rhieni. Bydd y Cydlynnydd AAA yn casglu gwybodaeth yn deillio o drafodaeth gyda chi ac yn trefnu cefnogaeth briodol ar gyfer eich plentyn os oes angen. Gelwir hyn yn Weithredu gan y Blynyddoedd Cynnar. Gallai’r ‘gweithredu’ hyn olygu gwahanol ddeunyddiau neu gyfarpar, grwpiau bach, cefnogaeth unigol i’ch plentyn neu hyfforddiant ar gyfer staff.

Caiff y gweithredu ei gofnodi mewn cynllun addysg unigol. Bydd gweithredu’n helpu’ch plentyn i ddatblygu a gwneud cynnydd tuag at ei botensial/ei photensial llawn.



“Bu’n rhaid i’m bachgen bach gael cynllun addysg unigol. Dim ond tair oed yw e. Beth mae hyn yn ei olygu?”

Os nad yw eich plentyn yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl, er gwaethaf derbyn cefnogaeth neu weithredu ychwanegol, yna bydd y Cydlynnydd AAA (gyda’ch sêl bendith chi) yn ymgynghori â phobl broffesiynol eraill a gallai ymrwymo gwasanaethau cymorth allanol. Gallai’r gwasanaethau allanol hyn ddod o feysydd iechyd, therapi lleferydd, seicoleg addysg neu athro/awes arbenigol. Byddant yn helpu i asesu ac ateb anghenion eich plentyn drwy roi cyngor arbenigol. Gelwir hyn yn Gweithredu gan y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Asesiad Statudol

Fel arfer, mae’r gweithredu pellach a wneir yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gall fod angen ystyried anghenion nifer fach o blant a chanddynt anawsterau sylweddol yn ddyfnach. Caiff hyn ei gwblhau trwy gynnal Asesiad Statudol lle mae’r Awdurdod Lleol yn casglu gwybodaeth fanwl gan ystod o bobl broffesiynol a allai fod ynghlwm wrth achos eich plentyn. Fel rhiant, chi yw’r prif ffynhonnell wybodaeth a bydd yr ALI yn eich ymrwymo’n llawn fel partner yn y broses hon.

Os yw’r wybodaeth a gesglir yn cadarnhau bod gan eich plentyn anawsterau sylweddol, yna gellir cyhoeddi Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar eich plentyn. Bydd datganiad yn nodi ac yn cofnodi’r holl gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen.

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan:-

- Lywodraeth Cynulliad Cymru - “Anghenion Addysgol Arbennig: Canllaw i Rieni”
- “Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002”

Gallech hefyd weld y geiriau canlynol sy’n disodli’r term Anghenion Addysgol Arbennig

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol**
- **Anghenion Addysgol Ychwanegol**
- **Anghenion Ychwanegol**

Fel teuluoedd, chi sy'n adnabod eich plentyn orau

Mae gan pob teulu bryderon dilys am y ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer eu plant; mae hyn yn arbennig o wir pan mae ganddynt anghenion cymhleth. Fel teuluoedd, chi sy'n adnabod eich plentyn orau.

Yn ychwanegol mae gan blant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig wybodaeth unigryw am eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain a barn am y math o gymorth y byddent yn ei hoffi a beth yr hoffent ei gyflawni yn y dyfodol. .

Amdano SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn cyflwyno'r Gwasanaeth Partneriaethau a Rhieni yng Nghymru ac mae'n cynnig gwybodaeth gywir, cyngor di-duedd a chefnogaeth i deuluoedd plant a phobl ifanc a chanddynt neu a allai fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig a/neu nabledd. Mae gwasanaeth SNAP Cymru yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddi-duedd. Mae SNAP Cymru hefyd yn cynnig gwasanaeth datrys anghydfodau ffurfiol ac eiriolaeth annibynnol fater wrth fater i blant a phobl ifanc.



Llinell Gymorth: 0845 120 3730 E-bost: llinellgymorth@snapcymru.org

www.snapcymru.org